COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

## Hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol

Dydd Iau, 27 Mehefin 2024

Neuadd Pantycelyn, Prifysgol Aberystwyth

| Rhaglen | |
|---|---|
| 11:00 – 11:30 | Cyrraedd, croeso a phaned |
| 11:30 – 12:30 | Cyflwyniad gan Sian Morgan Lloyd a Gwenfair Griffith |
| 12:30 – 13:15 | Cinio |
| 13:15 – 15:45 | Tasgau cyfryngau cymdeithasol |
| 15:45 – 16:00 | Paned |
| 16:00 – 17:30 | Deallusrwydd artiffisial: cyflwyniad gan Dr Seren Evans a phanel trafod *(Tŷ Trafod Ymchwil, Y Ganolfan Ddelweddu, Prifysgol Aberystwyth)* |
| 17:30 – 18:30 | Adborth ar y tasgau |
| 18:30 - | Swper |

Hyfforddiant i fyfyrwyr ôl-radd ac ymchwilwyr gyrfa gynnar ar rannu ymchwil drwy bodlediadau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod y diwrnod byddwn yn:

- Dysgu am werthoedd cyfryngau cymdeithasol
- Sut i ddal sylw
- Sut i greu ffeithlun llwyddiannus (infograffeg)
- Sut i dargedu cynulleidfaoedd gwahanol
- Sut i symleiddio iaith a chyfathrebu'n effeithiol
- Sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel dull ymchwil i gasglu barn a denu cyfranogwyr
- Sut i greu fideos / reels yn seiliedig ar waith ymchwil
- Sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwaith ymchwil yn llwyddiannus

## Bywgraffiadau

### Sian Morgan Lloyd | LloydSM5@caerdydd.ac.uk | @SianMorganLloyd

Mae Sian Morgan Lloyd yn uwch-ddarlithydd gyda chyfrifoldeb am y ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd. Cyn ymuno â Phrifysgol Caerdydd roedd yn Ddirprwy Olygydd rhaglen materion cyfoes flaenllaw S4C 'Y Byd ar Bedwar'. Mae ganddi ystod eang o brofiad yn gweithio'n ddwyieithog fel gohebydd a chynhyrchydd yn y diwydiant darlledu. Mae hi'n trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithdai, gan gynnwys prosiect 'Llais y Maes' yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae Sian ar hyn o bryd ar secondiad gydag S4C yn arwain ei strategaeth cynnwys a chyhoeddi.

### Gwenfair Griffith | GriffithG@caerdydd.ac.uk | @Gwenfair_

Mae Gwenfair Griffith yn newyddiadurwraig â phrofiad helaeth mewn sawl math o newyddiaduraeth. Mae ganddi ddiddordeb mawr ym mhrofiadau gohebwyr wrth eu gwaith a chyhoeddwyd ei chyfres radio i'r BBC, *Fy Stori Fawr*, ar ffurf llyfr yn 2023. Mae'n ymddiddori hefyd mewn newyddiaduraeth ddigidol a dyfodol newyddiaduraeth Gymraeg, cyfathrebu clir, y grefft o ddweud straeon mewn sawl cyfrwng yn ogystal â mentora newyddiadurwyr y dyfodol. Mae Gwenfair ar hyn o bryd yn darlithio newyddiaduraeth ar gyrsiau BA Prifysgol Caerdydd, yn un o gyflwynwyr rhaglen 'Bwrw Golwg', BBC Radio Cymru, ac yn gweithio fel newyddiadurwraig.

### Dr Seren Evans | seren.evans@bangor.ac.uk

Mae Dr Seren Evans yn Ddarlithydd mewn Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer ym Mhrifysgol Bangor, ac yn aelod o'r Sefydliad Ffisioleg Ddynol Gymhwysol. Cyn hynny, cwblhaodd ei PhD a ariannwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae hi hefyd yn Gydymaith Ymchwil a ariennir gan World Rugby i gynnal astudiaethau gwyliadwriaeth anafiadau o fewn gemau rygbi menywod ifanc (*Welsh Injury Surveillance in Girls Youth Rugby).* Ymhellach, mae hi ym misoedd olaf o astudio ar gyfer ei gradd israddedig Ffisiotherapi ym Mhrifysgol Wrecsam. Nod ei hymchwil a gyflwynir yn ystod y drafodaeth hon yw archwilio rol Deallusrwydd Artiffisial mewn rhagweld anafiadau o fewn Rygbi'r Undeb.

**Yr Athro Huw Morgan | hum2@aber.ac.uk**

Mae Huw Morgan yn arwain grŵp ymchwil Ffiseg y Gofod ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n arbenigwr ar ddatblygu offer a dulliau dadansoddi data ar gyfer arsylwadau o gorona'r haul, gan gynnwys defnydd cynyddol o ddulliau dysgu peirianyddol. Mae ganddo rolau allweddol o fewn sawl cydweithrediad rhyngwladol ac yn arwain prosiectau ymchwil i ddatblygu offer newydd ar gyfer arsylwi'r corona ac i ddadansoddi data o blasma'r corona. Mae'n arwain prosiect cenedlaethol sy'n darparu meddalwedd newydd i ddarogan tywydd y gofod i Swyddfa Dywydd y DU. Mae'n weithgar iawn yn siarad am yr haul a thywydd y gofod gyda'r cyfryngau gan gynnwys cyfweliadau estynedig gyda Radio 4, y *Guardian*, a'r *New York Times*.

**Dr Cynog Prys | c.prys@bangor.ac.uk**

Mae Dr Cynog Prys yn Uwch-ddarlithydd mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei arbenigedd ymchwil yn canolbwyntio ar ddefnydd iaith o fewn nifer o gyd-destunau gwahanol, gan gynnwys y defnydd o Gymraeg ar blatfformau digidol. Dros y blynyddoedd mae wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academaidd, adroddiadau, a goruchwylio doethuriaethau, sydd yn edrych ar sut y mae'r Gymraeg yn ymdopi ym maes technolegau iaith. Fel cymdeithasegydd, ei brif ddiddordeb yw deall sut mae unigolion, a grwpiau o bobl, yn defnyddio'r Gymraeg ar y platfformau hyn, a'r modd y gall hyn fwydo fewn i faes cynllunio ieithyddol a pholisi iaith. Mae Dr Prys yn aelod o rwydwaith ymchwil Ewropeaidd, Language in the Human-Machine Era, ble roedd yn gyd-gadeirydd yr is-grŵp Hawliau ieithyddol rhwng 2020 a 2023. Mae bellach yn rhan o rwydwaith ymchwil Ewropeaidd UniNet sydd yn edrych ar oblygiadau a dylanwad deallusrwydd artiffisial ar ieithoedd llai eu defnydd.

**Dr Neil Mac Parthaláin | ncm@aber.ac.uk**

Mae Dr. Neil Mac Parthaláin yn Uwch-ddarlithydd mewn Cyfrifiadureg ac yn ymchwilydd deallusrwydd artiffisial ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wedi ysgrifennu dros 60 o bapurau academaidd ac ymchwil ym meysydd dysgu peirianyddol, deallusrwydd peirianyddol, a chydnabod patrymau ar gyfer set amrywiol o gymwysiadau fel Rhag-brosesu Data, Gwybodeg Feddygol, Canfod Clefyd yr Ysgyfaint, Adnabod Mynegiant Dynol, ac ati.